# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-12-10 : Papur 2**

## Ymchwiliad i ffermydd awdurdodau lleol - Tystiolaeth gan Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig.

### Cyflwyniad

Mae gan ffermydd Awdurdodau Lleol (a elwir Tyddynnod Statudol neu'n amlach 'ffermydd sirol') rôl hanfodol wrth gynnig cam cyntaf ar yr ysgol ffermio i newydd-ddyfodiaid. Maent yn cynorthwyo gyda chadwraeth wledig a rheoli amgylcheddol cadarn ac ym meysydd addysg a mynediad i'r cyhoedd.

Cawsant eu sefydlu gyntaf gan Ddeddf Tyddynnod 1892, i liniaru amgylchiadau dirwasgedig gweithwyr fferm. Cafwyd gwahanol newidiadau manwl i'r ddeddfwriaeth yn ystod y degawdau wedyn, a bwriedid i ddarpariaethau Deddf Amaethyddiaeth 1947 ynglyn â thyddynnod alluogi gweithwyr fferm profiadol i gael y cyfle i ffermio ar eu liwt eu hunain: gosododd ddyletswydd ar awdurdodau tyddynnod i ddarparu tyddynnod.

Bellach mae'r darpariaethau statudol wedi'u cynnwys yn Rhan III o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970, a roddodd ar waith argymhellion gan y Pwyllgor Ymchwilio i Dyddynnod Statudol, a gadeiriwyd gan yr Athro M J Wise, y dylai awdurdodau tyddynnod (awdurdodau lleol) ad-drefnu eu hystadau er mwyn darparu unedau cynhyrchu mwy hyfyw. Darparodd fframwaith manwl ar gyfer ad-drefniant cychwynnol yr ystadau, gan ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau gael eu cymeradwyo gan y Gweinidog. Cwblhawyd y gwaith yn y 1970au cynnar.

Mae Adran 39 o Ddeddf 1970 yn dweud mai nod cyffredinol yr ystadau yw darparu cyfleoedd i bobl fod yn ffermwyr ar eu liwt eu hunain, ac mae yna gyfyngiadau ar y bobl y gellir rhoi tenantiaethau iddynt.

### Yr Ystad yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae ystâd tyddynnod Cymru dan berchnogaeth ac yn cael rheoli gan 14 o Awdurdodau Lleol, ac yn cynnwys 651 o ddaliadau â chyfarpar, a 201 o osodiadau tir yn unig, sef cyfanswm o tua 17,706ha (CIPFA County Farm Statistics 2008/09). Mae hyn yn gynnydd o 634 o ddaliadau â chyfarpar a 16,618ha yn 1999.

Barn Llywodraeth Cynulliad Cymru yw mai Awdurdodau Lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i reoli eu hystadau eu hunain yng ngoleuni'r amgylchiadau lleol perthnasol, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf 1970. Diddymodd Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (daeth adran 123 i rym ar 1 Ebrill 1974) y pwerau oedd cyn hynny wedi galluogi Gweinidogion i reoli gwerthiannau tir gan awdurdodau lleol. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl gwerthu tir (gyda rhai eithriadau cyfyngedig iawn yn unig - e.e. tir a ddelir at ddibenion cynllunio), heb yr angen i gael cymeradwyaeth gan y Gweinidog, pe bai awdurdod yn dewis gwneud hynny. Er bod rhai awdurdodau wedi gwerthu ffermydd unigol pan fo tenantiaethau wedi dod i ben, mae llawer o awdurdodau'n barnu bod yr ystadau'n cynnig cam cyntaf hollbwysig ar yr ysgol ffermio ac yn gweithredu polisi cadarnhaol o'u cadw. Mae Awdurdodau Lleol yn atebol i'w holl drethdalwyr lleol a rhaid iddynt geisio rheoli eu cyllidebau yn unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

### Pwerau Cyfredol

### Awdurdod Lleol -

Fel y nodwyd o'r blaen, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Amaethyddiaeth 1970, at ei gilydd mae awdurdodau tyddynnod yn rhydd i reoli eu hystadau fel y gwelant yn dda. Fodd bynnag, nid yw'n gosod dyletswydd ar gynghorau i gynnal a chadw eu tyddynnod. Mae'n ofynnol i awdurdodau ystyried buddiannau cyffredinol amaethyddiaeth a rheolaeth dda ar eu hystadau wrth eu rhedeg.

Nid yw'n ofynnol mwyach i awdurdodau tyddynnod gael caniatâd gan y Gweinidog cyn gwaredu tyddynnod. Mae'r pwer i osod yn adran 49 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 heb ragfarn i'r pwerau cyffredinol i werthu tir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1933, adran 165 (bellach Deddf Llywodraeth Leol 1972 adran 123). Gallant ddewis gwerthu'n llwyr eu budd rhydd-ddaliadol mewn tir, rhoi tymor o flynyddoedd h.y. tenantiaeth neu brydles, neu waredu rhyw fudd neu hawl llai. Yn gyffredinol, disgwylir i dir gael ei werthu am y gydnabyddiaeth orau y gellir ei chael yn rhesymol ond lle nad dyma'r achos, mae angen cydsyniad gan Lywodraeth y Cynulliad o dan adran 123(2) o'r Ddeddf i waredu tir. Fodd bynnag, os yw'r gwaredu trwy denantiaeth fer, nid oes angen cydsyniad.

Nid yw tyddynnod statudol yn ddarostyngedig i holl ddarpariaethau Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (sy'n berthnasol i denantiaethau amaethyddol yr ymrwymwyd iddynt cyn 1 Medi 1995). Yn benodol, nid yw olyniaeth statudol yn berthnasol ac ers 1984 mae'r rhan fwyaf o osodiadau tyddynnod newydd wedi bod ar denantiaethau ymddeol arbennig, gyda darpariaeth i'r denantiaeth gael ei therfynu gan y cyngor sir pan fo'r tenant yn cyrraedd 65 oed. Gellir cyflwyno rhybuddion di-ddadl i ymadael ar yr adeg honno: os bydd y tenant yn colli ei gartref o ganlyniad, ac os nad oes llety arall ganddo, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu llety addas.

Mae tenantiaethau ffermydd sirol yr ymrwymwyd iddynt ar neu ar ôl 1 Medi 1995 yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995. Yn ogystal â rhoi gallu llawer gwell i arallgyfeirio i ffwrdd o amaethyddiaeth lle bo'r partïon yn dewis gwneud hynny, mae'r Ddeddf yn galluogi awdurdodau tyddynnod i roi Tenantiaethau Busnes Fferm tymor penodol o unrhyw hyd, neu osodiadau o flwyddyn i flwyddyn os yw'n well ganddynt. Dylai'r hyblygrwydd hwn wneud strwythuro gwell yn bosibl o fewn ystadau.

### Llywodraeth Cynulliad Cymru -

Nodir rhestr lawn o'r pwerau a roddir i Weinidogion yn rhinwedd Deddf Amaethyddiaeth 1970 yn Atodiad 1. I grynhoi, mae'r pwerau yn y Ddeddf wedi'u cyfyngu i gyfarwyddo awdurdod lleol lle nad yw'n cyflawni ei swyddogaethau'n iawn (ni fu erioed achos i ddefnyddio'r pwer hwn), cymeradwyo ad-drefnu a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Dyddynnod. Yn ei hanfod ymarferiad ystadegol yw'r adroddiad hwn; ceir ynddo fanylion arwynebedd y tir sy'n cael ei osod fel tyddynnod, faint o dir cafodd ei gaffael neu ei waredu yn ystod y flwyddyn, nifer y tenantiaid a sefyllfa ariannol awdurdodau tyddynnod.

Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ddwyn i fy sylw y ffaith nad yw'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi mwyach. Fel y bydd y pwyllgor yn gwybod o'm gohebiaeth ar y mater hwn, rhoddodd gweinyddiaeth flaenorol y gorau i gyhoeddi adroddiad "Smallholdings in Wales" yn y gred nad oedd galw am yr adroddiad na'r wybodaeth a gafwyd ynddo. Rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion i ailddechrau cyhoeddi'r adroddiad, a fydd yn ymddangos ym mis Rhagfyr 2010 gan ymwneud â'r cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010. Wedyn bydd adroddiadau'n cael eu cynhyrchu'n flynyddol bob mis Mawrth o hynny ymlaen.

### Heriau

Mae ystad Cymru'n nodedig gan lawer am heriau penodol, gan gynnwys y gyfran fawr o berchen-feddianwyr yn y wlad, maint bach y daliadau ar draws yr ystad, lledaeniad eang daliadau yn ddaearyddol ac, mewn rhai achosion, y ffaith bod daliadau'n fwy pellennig, gan leihau'r cyfleoedd ar gyfer defnydd amrywiol o adnoddau ffermydd. Rhoddir crynodeb o rai o'r heriau allweddol isod:

Gallu cyfyngedig i fuddsoddi o gofio'r pwysau ariannol ar Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a thenantiaid.

Cydbwyso'r angen am bolisi cyson gyda'r gallu i wneud penderfyniadau ar sail amgylchiadau lleol.

Symud ymlaen o sector Awdurdodau Lleol i'r sector preifat

Trefniadau tenantiaeth hirdymor ar ffermydd Awdurdodau Lleol yn lleihau nifer y cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid ifanc i amaethyddiaeth.

Taro cydbwysedd priodol rhwng darparu cyfleoedd i newydd-ddyfodiaid ifanc, symud ymlaen yn y sector a rheoli fferm awdurdod lleol yn y tymor hir.

Dyma'r heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth sefydlu a gweithredu polisi mewn perthynas â rheoli eu hystâd yn unigol ac ar y cyd.

### Casgliadau

Mae ystad tyddynnod awdurdodau lleol yn ased cenedlaethol strategol pwysig ac yn gam cyntaf ac ysgol o bwys i newydd-ddyfodiaid ifanc i ffermio. Rhaid cofio nad darparu mynediad a llwybr symud ymlaen i ffermio i bobl a fyddai heb un fel arall yw unig ddiben yr ystad tyddynnod, ond hefyd sicrhau cydbwysedd rhwng cynhyrchu bwyd a buddion amgylcheddol ehangach. Mae llwyddiant diwydiant bwyd cynaliadwy Cymru yn y dyfodol yn nwylo'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr, cynhyrchwyr, proseswyr a manwerthwyr.

Rwy'n gobeithio y bydd ffermwyr ifanc ar ffermydd awdurdodau lleol yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad megis y Cynllun cymorth i Newydd-ddyfodiaid, sydd wedi'i gynllunio i gynnig cefnogaeth, cyfarwyddyd a chymorth grant i annog pobl ifanc i ddod i mewn i'r diwydiant, y Gronfa Ddata Cyfleoedd, a fydd yn darparu canolbwynt cyngor a chyfarwyddyd i ffermwyr ifanc, ac yn y dyfodol Glastir. Yn olaf, rhaid i mi dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael trwy'r rhaglen Cyswllt Ffermio sy'n darparu cymorth un i un, gwybodaeth, a gwasanaethau arbenigedd, hyfforddiant a chynghori, wedi'u teilwra i anghenion busnes. Mae llawer o'r gwasanaethau'n cael eu hariannu'n llawn neu â chymhorthdal o 80% i newydd-ddyfodiaid ifanc. Gall gwasanaethau Cyswllt Ffermio hefyd helpu ffermydd i redeg eu busnes yn fwy effeithlon a helpu i ddiogelu dyfodol ffermydd teuluol.

Mae'r holl bethau uchod yn cyfrannu at y gyfres o fentrau sydd wedi'u datblygu a'u cefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o fewn y pwerau sydd ar gael i mi i wireddu Ymrwymiad Cymru'n Un i gynorthwyo newydd-ddyfodiad ifanc i ffermio.

### Atodiad 1

### Crynodeb o'r darpariaethau yn Neddf Amaethyddiaeth 1970 mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru.

Mae Adran 39(2) yn darparu pwer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglyn ag a yw fferm yn dod o dan neu uwchben y terfyn uchaf ar gyfer tyddyn

Mae Adran 42 yn darparu pwer i gyfarwyddo, unwaith bob 5 mlynedd ar y mwyaf, Awdurdod Lleol i gynnal adolygiad o'i ystad ffermydd a chyflwyno cynigion ar gyfer rheoli ei ystad ffermydd yn y dyfodol.

Mae Adran 43 yn darparu pwer i gymeradwyo newidiadau i rai cynigion penodol ynglyn ag ystad ffermydd awdurdod lleol y cytunwyd arnynt ynghynt.

Mae Adran 44 yn darparu pwer i gymeradwyo/gydsynio i rai gosodiadau penodol o ystad ffermydd yr awdurdod lleol yn sgil ymestyn neu gyfuno'r ystad. Hefyd, y pwer i wneud rheoliadau ynglyn â dewis tenantiaid y gall Awdurdodau Lleol osod tir yr ystad ffermydd iddynt ac i osod rhwymedigaethau ar yr Awdurdodau Lleol hynny.

Mae Adran 49 yn darparu pwer i gymeradwyo gosodiadau ffermydd gan yr Awdurdod Lleol neu dir ystad dros ben.

Mae Adran 52 yn darparu pwer i wneud rheoliadau sy'n mynnu i Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth benodol mewn perthynas â gwerthu neu gyfnewid tir.

Mae Adran 56 yn darparu, mewn achosion lle bo'r Awdurdod Lleol yn cyflawni ei rwymedigaeth fel landlord fferm yn anfoddhaol, bod gan Weinidogion Cymru'r pwer i gyfarwyddo Awdurdod Lleol i gyflawni ei swyddogaethau neu, os yw'n briodol, i drosglwyddo'r swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru.

Mae Adran 58 yn darparu pwer i Weinidogion Cymru fynnu bod Awdurdod Lleol yn cynhyrchu cofnodion penodol mewn perthynas â'r ystad ffermydd.

Mae Adran 59(2) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod adroddiad ar ffermydd Awdurdodau Lleol.